



ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2017 – 2018

Cydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

TABL CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol _____	3
Cyflwyniad _____	4
Astudiaeth Achos 1 _____	6
Astudiaeth Achos 2 _____	9
Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau _____	11
Datblygiad y Gwasanaeth _____	17

Sut mae penderfyniadau wedi'u llywio gan gynllun gwario, dadansoddiad o anghenion, canlyniadau a ffynonellau eraill o ddata? Pa newidiadau sydd wedi'u cyflwyno yn sgil hyn? _____ 17

Pa waith rhanbarthol ac is-ranbarthol sy'n cael ei gomisiynu (ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol â mwy na dau awdurdod lleol) a sut mae gwasanaethau wedi gwella ers yr Adroddiad Adolygu Blyneddol? _____ 19

Sut gallwch ddangos eich bod yn mynd ati i ymdrin â digartrefedd mewn modd ataliol sy'n ymyrryd yn gynharach? _____ 20

Pa gysylltiadau sydd gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol â'r gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn yr ardal? A ydych wedi comisiynu unrhyw wasanaethau ar y cyd neu wedi cyfuno unrhyw adnoddau? Os ydych, a allwch nodi manylion y prosiect(au)? _____ 22

Pa gysylltiadau sydd wedi'u gwneud â grwpiau strategol/cynllunio rhanbarthol eraill, a pha waith cydgomisiynu sydd wedi'i wneud gyda phartneriaid/rhaglenni allweddol eraill? _____ 23


Adborth / Arfarniadau'r Cydbwyllgor Rhanbarthol _____	26
Llywodraethu a Gwybodaeth Ymarferol _____	29
Gwybodaeth Gyswllt y Cydbwyllgor Rhanbarthol _____	31

CRYNODEB GWEITHREDOL

Pleser o'r mwyaf yw fy mod wedi gallu gwasanaethu Cydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Dros y blynyddoedd, rwyf wedi gweld y camau mawr y mae'r pwyllgor wedi'u cymryd ers ei ddechrau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi gwneud cynnydd sylweddol, er ei fod wedi profi rhai anawsterau oherwydd absenoldeb cydlynedd amser llawn. Fodd bynnag, gwelwyd momentwm yn cynyddu yn y Cydbwyllgor Rhanbarthol tuag at gydweithio cryfach, datblygu gwasanaethau gwell, ac aliniad agosach â phartneriaid rhanbarthol.

Rwy'n falch fod gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol Gynllun Strategol Rhanbarthol cryf sy'n nodi blaenoriaethau sydd wir o bwys i'r rhanbarth ac sy'n adlewyrchu anghenion unigol ardaloedd. Ceir momentwm cynyddol tuag at waith rhanbarthol ac ymagwedd systematig tuag at gomisiynu ar y cyd. Mae diddordeb sy'n tyfu a chyfranogiad gweithredol hefyd mewn rhaglenni rhanbarthol a rhannu gwybodaeth a sgiliau. Mae'n falch gennyf hefyd weld bod y Cydbwyllgor Rhanbarthol yn cael ei gynrychioli'n dda gan randdeiliaid amrywiol, oll yn dangos dealltwriaeth glir o fanteision y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl aelodau, rhanddeiliaid a'r timau Cefnogi Pobl am ddod ynghyd a chefnogi'r Cydbwyllgor Rhanbarthol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n gyffrous i weld yr hyn y gall y pwyllgor ei gyflawni yn y dyfodol. Rwy'n dymuno'r gorau i'r pwyllgor am y flwyddyn i ddod. Diolch yn fawr iawn.




Y Cynghorydd Catherine Hughes
Cadeirydd
Cydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

CYFLWYNIAD

Am yr adroddiad hwn

Mae'n ofynnol dan Ganllaw Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl i'r Cydbwyllgorau Rhanbarthol gyflwyno Adroddiad Adolygiad Blynyddol i'r Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Cefnogi Pobl, a fydd yn cynghori'r gweinidog ar gynnydd pob Cydbwyllgor Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Diben yr adroddiad hwn yw nodi gwybodaeth y mae ei hangen yn benodol, yn ogystal â chynghori a sylwadau'r Cydbwyllgor Rhanbarthol ar y rhaglen yn y rhanbarth, ar weithrediad Cydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gweithgareddau a'r cynnydd a wnaed gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018.

Mae'r flwyddyn 2017/18 wedi bod yn gyffrous i Gydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi gwneud camau sylweddol, er ei fod wedi profi rhai anawsterau oherwydd absenoldeb cydlynnydd amser llawn yn ystod tri chwarter cyntaf y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, gwnaeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol benderfyniadau allweddol, y mae dau ohonynt wedi'u hamlygu yn yr astudiaethau achos yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

Mae'n ymfalchïo yn y ffaith fod ganddo gynllun comisiynu rhanbarthol cryf sy'n nodi blaenoriaethau o bwys i'r rhanbarth ac sy'n adlewyrchu anghenion unigol ardaloedd. Mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi gallu annog newidiadau a bod yn dyst iddynt yn y Cynllun Gwario. Mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol yn cydnabod bod angen meddu ar ymagwedd systematig wedi'i datblygu'n dda wrth ymateb i gyfleoedd am gydgomisiynu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol ganolbwyntio ar ymgysylltiad gwell mewn cyfleoedd comisiynu rhanbarthol a deuranbarthol / ar y cyd posib, gwaith partneriaeth gyda byrddau rhanbarthol allweddol eraill, aliniad agosach o flaenoriaethau ac amcanion gyda'r maes gwaith ehangach, a chefnogi amcanion digartrefedd. Yn wir, roedd momentwm mewn trafodaethau ynghylch cryfhau rhaglenni gwaith rhanbarthol. Er enghraifft, cynhaliwyd gwaith i fapio a chysylltu nodau a blaenoriaethau byrddau rhanbarthol allweddol, h.y. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, ym mis Ionawr. Roedd diddordeb cynyddol a chyfranogiad gweithredol hefyd mewn rhaglenni rhanbarthol a rhannu gwybodaeth a sgiliau.

Yn ogystal â gwaith rhanbarthol a gwaith partneriaeth, dangoswyd tystiolaeth o'r dymuniad i wella gwasanaethau a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y cyfarfodydd a'r camau gweithredu a nodwyd gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol. Roedd tystiolaeth o bawb yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, sy'n darparu sail gadarn a chynaliadwy i waith yn y dyfodol ddatblygu arni. Yn gyffredinol, roedd gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol bresenoldeb da, gyda phresenoldeb ar gyfartaledd o 14 o aelodau a swyddogion Cefnogi Pobl.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol yn dal i gydnabod yr angen i gael ymagwedd fwy a mwy rhagweithiol at gydgomisiynu, rhagor o ddatblygiad o weithio'n agosach â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a gwaith partneriaeth mwy effeithiol. Mae rhagor o'r rhain wedi'u hamlygu yn Adran Datblygu Gwasanaethau'r adroddiad hwn.

Oherwydd cyrhaeddiad y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol newydd yn chwarter olaf y cyfnod adrodd, gwelwyd cyfathrebu gwell gyda Llywodraeth Cymru a Chydbwyllgorau Rhanbarthol eraill. Mae cynnydd yn lefelau staffio Cefnogi Pobl hefyd yn dangos ymrwymiad awdurdodau lleol i gomisiynu gwell.

Mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol yn cymryd adborth gan yr aelodau o ddifrif a bydd yn sicrhau yr ymdrinnir â'r adborth wrth symud ymlaen.

'Fel y llynedd, mae'n wych gweld y sefydliadau amrywiol o amgylch y bwrdd a'r unigolion hynny'n deall manteision cefnogi pobl yn glir. Mae croeso cyffredinol o ran rhannu a chronni profiad a gwybodaeth. Ond mae angen cysondeb ymhlith yr awdurdod lleol wrth gomisiynu, monitro ac adolygu darparwyr - yn groes i'r dulliau gweithredu gwahanol ac amrywiol sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae angen mabwysiadu ymagwedd gyson yn y gobaith y bydd yn arwain at weithio ar y cyd a chydgomisiynu. Bydd hyn yn hanfodol pan fydd adnoddau'n brin a bod ffrydiau ariannu mewn perygl.'

- L. Webster, Cymdeithas Tai Wales & West

ASTUDIAETH ACHOS 1

Y Cydbwyllgor Rhanbarthol yn gweithredu'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol

Ym mis Ionawr 2017, dechreuodd datblygiad y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol gydag e-bost byr. Dyma gynnwys yr e-bost:

'Prynhawn da, bawb. Gofynnwyd i mi gysylltu â chi i ganfod a fyddai gan eich awdurdod ddiddordeb mewn ymagwedd ranbarthol at yr adolygiad a'r strategaeth ddigartrefedd y mae eu hangen dan Ddeddf Tai 2014. Sut rydych yn datblygu gyda'ch adolygiad ac a fyddai diddordeb gennych mewn ymagwedd ranbarthol? Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych.' - Rob, Cyngor Sir Powys

Dilynwyd hyn gan gyfres o e-byst a dyddiadau rhwng pedwar awdurdod lleol. Erbyn mis Mawrth 2017, roedd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol wedi sicrhau'r cyfarfod rhanbarthol cyntaf i drafod y strategaeth. Ar y cam hwn, mae awdurdodau lleol bron wedi cwblhau eu hadolygiadau digartrefedd unigol ac wedi cytuno i ystyried datblygu strategaeth drosfwaol unigol ar gyfer y rhanbarth.

Mae'r camau gweithredu cytunedig / a gymerwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael eu hamlinellu isod.

Ebrill 2017

- Roedd Ceredigion wedi ymgymryd ag Arolwg Adolygu Digartrefedd; cytunodd awdurdodau lleol eraill i ddefnyddio set gyson o gwestiynau / methodoleg gyson ar draws y rhanbarth
- Cytundeb i gynnal ymarfer cwmpasu a chysylltu gyda gwasanaethau iechyd (Cynlluniau Gweithredu Iechyd Grwpiau Digartrefedd ac Agored i Niwed), sy'n gysylltiedig â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i bennu eu diddordeb mewn ymagwedd ranbarthol, ac archwilio hygyrchedd data iechyd i'w bwydo i'r adolygiad (gofal sylfaenol a gofal iechyd meddwl)
- Ystyried cynnwys pobl ifanc, llwybrau pobl ifanc, a'r rhai sy'n gadael gofal yn yr adolygiad a strategaeth

- Cytundeb i rannu strwythur tai awdurdodau lleol ei gilydd er mwyn ei osod yn yr adolygiad/strategaeth ac i adolygu 10% o'r garfan angen blaenoriaethol a'r canlyniadau maent wedi'u cyflawni chwe mis ar ôl ymgysylltu, e.e. cofrestru gyda meddygon teulu

Mehefin 2017

- Dosbarthwyd holiadur arolwg adolygu digartrefedd gan yr holl awdurdodau lleol i asiantaethau a rhanddeiliaid ehangach
- Trafodwyd dyddiad ar gyfer hyfforddiant o fath meddygol parthed cytuno ar angen blaenoriaethol gan ddefnyddio arian trosglwyddo; cytunodd Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin i ymgymryd â hyfforddiant ar y cyd a bydd Ceredigion a Phowys yn gwneud rhywbeth tebyg
- Cytundeb ar strwythur yr adroddiad adolygu

Medi 2017

- Dosbarthwyd holiadur i randdeiliaid ehangach, gan gynnwys byrddau iechyd
- Roedd y gwasanaethau plant, gan gynnwys gwasanaethau pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a llesiant yn gysylltiedig yn yr adolygiad
- Adroddiad adolygu strwythuredig wedi'i gytuno ar benawdau'r cynllun
- Cytundeb i setiau data cenedlaethol ar ddigartrefedd gael eu rhannu yn y grŵp

Tachwedd 2017

Ym mis Tachwedd 2017, gwnaeth Arweinydd Anghenion Tai Sir Gaerfyrddin gynnal ymchwil i ddigartrefedd a gwaith ystadegol i lywio'r adolygiad a'r strategaeth ddigartrefedd ranbarthol. Ni chynhaliwyd y cyfarfod a oedd i fod i gael ei gynnal ym mis Tachwedd. Cafwyd trafodaethau ar gyfer datblygu strategaethau deuranbarthol yn lle, gyda Cheredigion a Phowys yn gweithio gyda'i gilydd a Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro'n datblygu eu strategaethau eu hunain. Awgrymodd yr awdurdodau lleol er eu bod wedi bod yn gweithio ar lunio strategaeth ranbarthol at ei gilydd, roedd cynnal cyfarfodydd wedi bod yn anodd yn logistaidd.

Rhagfyr 2017 a symud ymlaen

Aeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol i'r afael â'r mater hwn mewn cyfarfod ym mis Rhagfyr 2017, gan dynnu sylw ar y disgwyliad gan Lywodraeth Cymru a'r cyfle gwych sy'n cael ei golli o bosib. Gwnaeth y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol newydd sôn am hyn gyda rheolwyr timau tai'r awdurdodau lleol ym mis Chwefror 2018 a threfnu cyfarfod rhanbarthol arall i atgyfodi'r

strategaeth drosfwaol unigol gynlluniedig. Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Mawrth 2018 a chafwyd canlyniad cadarnhaol. Mae'r Strategaeth Ranbarthol bellach yn cael ei datblygu ac yn symud ymlaen. Bydd y Cydbwyllgor Rhanbarthol yn parhau i weithio gyda'r timau digartrefedd yn y rhanbarth i sicrhau aliniad gwasanaethau a gwaith rhanbarthol cadarnhaol tuag at un nod - i atal digartrefedd a'i ddiweddu.

ASTUDIAETH ACHOS 2

Hwyluso Cytundeb Rhanbarthol ar Daliadau Rheoli

Yn flaenorol, gwnaeth awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ddefnyddio ymagweddau gwahanol wrth werthuso, cymhwyso ac asesu taliadau rheoli. Roedd amrywiaeth eang o arferion yn bodoli mewn perthynas â thaliadau rheoli yn y Rhaglen Cefnogi Pobl ar ran yr awdurdodau lleol a darparwyr. Roedd diffyg eglurdeb cyffredinol hefyd ar ran y sawl a oedd yn cymryd rhan ac nid oedd cysondeb polisi ar gyfer mynd i'r afael â thaliadau rheoli yn y rhaglen.

Aeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol i'r afael â'r materion ynghylch taliadau rheoli yng nghyfarfod mis Medi 2017 a chynnig cyflwyno taliadau rheoli cyson ar draws y rhanbarth. Gwnaeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol hefyd godi'r angen i ostwng y taliadau rheoli ac i gydymffurfio â chanllawiau Cefnogi Pobl ar daliadau rheoli o 10%, ac i gytuno ar ymagwedd ar draws pedwar awdurdod lleol.

Yn dilyn y cynnig, gwnaeth timau Cefnogi Pobl gwrdd i ymgynghori â darparwyr gwasanaethau. Nod cyfarfodydd ac ymgynghoriadau'r timau Cefnogi Pobl oedd deall:

- Sut y codir taliadau?
- Beth mae taliadau'n eu cynnwys?
- Sut maent yn cymharu â chynlluniau eraill sydd wedi'u hariannu gan grant?
- Sut mae pob sir yn cymharu yn y rhanbarth?
- Sut mae'r rhanbarth yn cymharu â siroedd eraill?

Cyfrifo Taliadau Rheoli

- Y cynsail sylfaenol oedd bod y rhan fwyaf o bobl yn gweithio ar sail 80% staff, 10% gorbenion a 10% taliadau rheoli
- Gellir ystyried costau'r gwasanaeth fel a ganlyn: gros (swm holl gostau cynnal y prosiect) namyn taliad rheoli = costau net cynnal prosiect
- Angen cytuno ar y gorbenion a'r costau rheoli canolog

Cytunodd y timau Cefnogi Pobl ar y cytundeb sylfaenol canlynol:

Mae 80% yn cynnwys

- Hyfforddiant
- Cyflogau ac argostau uniongyrchol a phensiynau
- Treuliau meddygol
- Teithio
- Recriwtio
- Haen gyntaf rheolwyr llinell

Mae 10% o gostau'r prosiect yn cynnwys

- TG
- Yswiriant
- Costau swyddfa
- Ffôn
- Argraffu
- Offer ysgrifennu
- Postio
- Canran y rheolwyr ardal
- Ail haen rheolwyr llinell
- Costau ymgysylltu a chynnwys (costau'r staff eisoes wedi'u cyfrif yn yr 80%)

Y taliad rheoli o 10% - cyfraniad canolog i'r canlynol:

- Llywodraethu
- Sicrhau ansawdd
- Llunio polisiau
- Adnodau Dynol (wedi'i ddosrannu fesul prosiect)
- Cyllid

Cyflwynwyd y cytundeb uchod i'r Cydbwyllgor Rhanbarthol a'i ddosbarthu i'r holl randdeiliaid am adborth a chymeradwyaeth. Awgrymwyd y dylai'r Cydbwyllgor Rhanbarthol ailymweld â thaliadau rheoli rhanbarthol yn 2018/19 i sicrhau cysondeb ac i adolygu arfer rhanbarthol.

CYNNWYS DEFNYDDWYR GWASANAETHAU

Sut mae pobl sydd â mynediad i wasanaethau wedi cymryd rhan ac wedi llywio penderfyniadau?

Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a/neu eu cynnwys yw un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd defnyddwyr gwasanaethau'n rhan o gynllunio a llywio penderfyniadau drwy'r rhwydweithiau a fforymau lleol presennol megis fforymau defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â dymuniadau defnyddwyr gwasanaethau, sydd wedi dadlau dros gyfarfodydd defnyddwyr gwasanaethau lleol, naill ar lefel wasanaeth neu awdurdod lleol yn hytrach na chyfarfodydd rhanbarthol. Gwnaeth y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol, mewn partneriaeth â rheolwyr tîm Cefnogi Pobl, ddarparu'r cyswllt rhwng defnyddwyr gwasanaethau a'r Cydbwyllgor Rhanbarthol drwy fynd i fforymau lleol i gyflwyno gwybodaeth gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol a chael adborth gan ddarparwyr gwasanaethau a/neu ddefnyddwyr gwasanaethau.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau hefyd gan dimau Cefnogi Pobl a darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n rhan o lywio penderfyniadau. Er bod llawer o ddulliau cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, rhai a ddefnyddiwyd fwyaf gan ddarparwyr gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf yw:

- Fforymau defnyddwyr gwasanaethau
- Grwpiau cymorth a mentora gan gyfoedion
- Diwrnodau galw heibio misol a boreau coffi anffurfiol
- Grwpiau gorchwyl i helpu gyda'r gwaith o ddylunio ac ailddylunio gwasanaethau, sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau
- Ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau wrth graffu polisïau a gweithdrefnau allweddol
- Cymryd rhan mewn paneli recriwtio
- Gweithgareddau anffurfiol a chymdeithasol lle gall pobl drafod a rhoi eu syniadau mewn lleoliad ymlaciedig

'Gwnaeth gymryd rhan fy helpu i adael y strydoedd', 'os ydych yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth, gallwch ei wella' - Defnyddiwr Gwasanaethau

Monitro Contractau a Gwerthuso

Mae'r pedwar tîm Cefnogi Pobl yn cynnal deialog barhaus â defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau a gwnaethant geisio eu mewnbwn yn ystod yr adolygiad monitro contractau a'r

broses werthuso. Roedd ymgynghori â chwsmeriaid yn rhan annatod o'r broses. Defnyddiwyd holiaduron a chyfweliadau wyneb yn wyneb gyda defnyddwyr gwasanaethau a chawsant eu dewis ar hap gan y gwerthuswyr. Cafodd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ei adlewyrchu'n ofalus yn yr adroddiadau gwerthuso, gan alluogi i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau adolygu a myfyrio ar yr hyn sydd wedi cael ei ddweud. Yna defnyddiwyd yr adborth a dderbyniwyd i helpu i lywio manylebau'r gwasanaeth wrth fynd ymlaen.

Prosiectau Peilot

Defnyddiwyd proses ymgysylltu ac ymgynghori debyg i werthuso'r prosiectau peilot yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod y cyfnod adolygu - siaradwyd â sampl o ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd wedi cael eu cefnogi gan y prosiectau peilot er mwyn canfod eu barn. Er enghraifft, roedd y gwerthusiad o brosiect peilot cymorth fel y bo'r angen Sir Gaerfyrddin yn cynnwys siarad â defnyddwyr gwasanaethau i gael barn fanwl ar a oes modd i 'wasanaethau cyffredinol lleol' yn gallu diwallu eu hanghenion. Ym Mhowys, defnyddiwyd ymagwedd a oedd yn canolbwyntio ar y defnyddiwr gwasanaeth. Roedd yr ymagwedd yn canolbwyntio ar ddeall y galw, y rhesymau dros y galw, a'r hyn sy'n bwysig i bob unigolyn sy'n gofyn am gymorth. Defnyddiwyd yr wybodaeth a geisiwyd yn y broses i ddylunio'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddatblygu, fesul ardal ar draws Powys. Defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses hon hefyd wrth greu Rhwydwaith Tai â Chymorth a fydd yn cynhyrchu data i'w ddefnyddio i lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol.

Diwrnod Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau Rhanbarthol

Ym mis Mawrth 2017, cynhaliodd y Cydbwyllgor Rhanbarthol Ddiwrnod Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau Rhanbarthol. Ar y dydd, daeth defnyddwyr gwasanaethau, eu gweithwyr cymorth, darparwyr gwasanaethau a swyddogion Cefnogi Pobl o ar draws y rhanbarth ynghyd i rannu eu barn ar ddefnyddio gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Gwnaeth y defnyddwyr gwasanaethau siarad am eu profiadau, eu meddyliau a'u syniadau am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen yn eu cymunedau. Gwnaeth defnyddwyr gwasanaethau hefyd siarad am y ffyrdd yr hoffent gymryd rhan a helpu i wneud penderfyniadau ar wedd y gwasanaethau cymorth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn dangos barn y cyfranogwyr ar y digwyddiad a sut byddant yn cymryd rhan yn y dyfodol.



Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn meddwl bod y digwyddiad yn werthfawr ac y byddai eu mewnbwn yn fanteisiol i'r gwasanaethau maent yn eu derbyn. Fodd bynnag, roedd ychydig dros hanner y cyfranogwyr yn meddwl bod ganddynt lais wrth sefydlu gwasanaethau a phrosiectau sy'n effeithio arnynt. Cytunodd bron pawb y dylai fod mwy o ymwybyddiaeth ynghylch cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a dywedodd hanner ohonynt yr hoffent gynrychioli eu hunain a defnyddwyr gwasanaethau eraill yn y pwyllgorau a'r fforymau, gyda llawer ohonynt yn dweud y byddai angen hyfforddiant arnynt i allu gwneud hynny. Yn gyffredinol, gwelwyd bod y digwyddiad yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol ond roedd modd i'w wneud yn fwy lleol a thematig.

Daeth tair neges allweddol i'r amlwg o'r digwyddiad. Dyma nhw:

'Mae'r diwrnod wedi bod yn dda ac yn ddefnyddiol ac roedd y bwyd yn wych.'
- Defnyddwyr gwasanaethau

Tabl 1: Cwestiynau'r Arolwg	✓	X
Ydych chi'n credu bod gennych lais wrth sefydlu gwasanaethau a phrosiectau?	63%	37%
Ydych chi'n meddwl y byddai gwasanaethau a phrosiectau'n elwa o'ch mewnbwn a'ch dylanwad?	100%	0%
Ydych chi'n credu y dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o ran cynnwys defnyddwyr gwasanaethau?	95%	5%
A hoffech chi gynrychioli eich hun a defnyddwyr gwasanaethau eraill mewn pwyllgorau a fforymau?	50%	50%
Os felly, a fyddai angen cymorth a hyfforddiant arnoch i wneud hynny?	89%	11%
A oes gan y darparwr sy'n eich cefnogi fforwm ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau?	71%	29%
Os felly, a ydych yn cynrychioli'r fforwm hwnnw heddiw?	50%	50%
A fyddai neu a allai'r cyfle hwn arwain at fwy o gyfleoedd cyflogaeth/hyfforddiant?	67%	33%
A ydych yn byw mewn ardal drefol?	74%	26%
A yw heddiw wedi bod yn ddigwyddiad gwerthfawr?	100%	0%

1. Cynhwysiad digidol - roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y rhyngwrdd yn offeryn defnyddiol wrth gyfathrebu â phobl yn y gwasanaeth, boed hynny drwy gyfryngau cymdeithasol megis Facebook, YouTube neu Skype
2. Gallu dewis sut i gymryd rhan
3. Derbyn adborth ar yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad iddyn nhw gymryd rhan er mwyn gwybod y gwahaniaeth y maent wedi ei wneud trwy gymryd rhan

Symud ymlaen: Digwyddiad is-ranbarthol a mwy lleol a thematig

Awgrymodd y digwyddiad uchod mai'r cam nesaf o ran cynnwys fyddai sefydlu grwpiau defnyddwyr gwasanaethau llai, mwy lleol a thematig i gyfrannu at y gwaith o gynllunio, datblygu ac adolygu gwasanaethau cefnogi pobl a gwaith y cydbwyllgor rhanbarthol a dylanwadu arnynt. Ym mis Hydref, cynhaliwyd digwyddiad defnyddwyr gwasanaethau deuranbarthol yn Hwlfordd i bobl â hanes troseddu a phroblemau camddefnyddio sylweddau. Roedd fformat y digwyddiad mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd ac a amlygwyd uchod. Gwnaeth y digwyddiad ddilysu rhai materion hysbys o ran ymgysylltu megis yr angen am

ddigwyddiadau mwy lleol yn hytrach na chanolog. Gwnaeth y digwyddiad hefyd gynhyrchu gwybodaeth gyfoethog am sut gall Cefnogi Pobl eu cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau cymdeithasol sy'n ymwneud â chyfoedion gyda'r nos a thros y penwythnos a'r angen am gludiant, yn enwedig dros y penwythnos. Clywyd bod pobl yn teimlo fwyaf agored i niwed gyda'r nos a thros y penwythnos.

Crynhowyd barn defnyddwyr gwasanaethau mewn taflen, a gafodd ei dosbarthu wedyn i'r holl ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Defnyddir y daflen hefyd i hybu ymwybyddiaeth o'r Rhaglen Cefnogi Pobl ac i annog mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan. Ystyrir eu barn yn ofalus ac maent yn ffurfio sail ar gyfer datblygu gwasanaethau. Cawsant eu defnyddio hefyd i lywio a diweddarau'r Cynllun Strategol Rhanbarthol.

Tudalen We'r Cydbwyllgor Rhanbarthol

Cynigiodd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol y dylid datblygu gwefan Cydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i fod yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg), yn hawdd ei defnyddio ac yn hygyrch gan ddyfeisiau gwahanol, a chafodd y gwaith hwn ei ddechrau ym mis Chwefror 2018. Bwriad y wefan yw gweithredu nid yn unig fel canolfan wybodaeth ond hefyd fel adnodd i gyhoeddi papurau allweddol megis y Cynllun Strategol Rhanbarthol a diweddariadau pwysig gan Lywodraeth Cymru, ac i ymgysylltu â phobl sydd ar y rhaglen neu sydd am gael mynediad iddi. Mae'r wefan yn ymateb i ddymuniadau'r defnyddwyr gwasanaethau i allu cyfathrebu â phobl yn y gwasanaeth dros y rhyngwyd a'r cyfryngau cymdeithasol a gallu dewis sut i gymryd rhan.

Pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cyfranogiad a sut mae hyn wedi cael ei gyflwyno fel adborth iddynt?

Roedd y farn a gasglwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n hanfodol wrth gynllunio, datblygu a chomisiynu gwasanaethau yn y rhanbarth ac, yn y pen draw, wrth ddylunio a diweddarau deunyddiau'r Cynlluniau Comisiynu Lleol a'r Cynllun Strategol Rhanbarthol. Mae rhai enghreifftiau eisoes wedi cael eu nodi uchod.



Cylchlythyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cylchlythyrau wedi bod yn hanfodol wrth roi adborth i'r holl ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae'r cylchlythyr yn rhoi darlun cyffredinol o'r digwyddiad cynnwys i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn dangos llais cryf a dewisiadau'r defnyddwyr gwasanaethau, ac yn crynhoi unrhyw argymhellion ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol. Caiff y cylchlythyr ei ddosbarthu i'r Cydbwyllgor Rhanbarthol a'r holl ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn electronig ac ar bapur. Nid yn unig y mae'n darparu adborth ond mae hefyd yn annog pobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaethau i gymryd rhan.

Un o'r argymhellion a ymddangosodd o'r digwyddiad cynnwys defnyddwyr gwasanaethau diweddar oedd 'cynhwysiad digidol', sy'n golygu bod yn well ganddynt gymryd rhan gan ddefnyddio dyfeisiau a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol wedi sylwi ar hyn ac, ers hynny, mae wedi cynnig a chychwyn gwaith i ddatblygu gwefan hygyrch i'r Cydbwyllgor Rhanbarthol. Mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol wedi trafod y cynnig hwn gyda'r Cydbwyllgor Rhanbarthol, grwpiau cynlluniau lleol a fforymau darparwyr gwasanaethau lleol.

DATBLYGIAD Y GWASANAETH

Sut mae penderfyniadau wedi'u llywio gan gynllun gwario, dadansoddiad o anghenion, canlyniadau a ffynonellau eraill o ddata? Pa newidiadau sydd wedi'u cyflwyno yn sgil hyn?

Defnyddiodd y Cydbwyllgor Rhanbarthol ystod eang o ffynonellau data meintiol ac ansoddol wrth wneud penderfyniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r safbwyntiau a gesglir gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau trwy weithgareddau amrywiol yn ffynhonnell bwysig o ddata ansoddol a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau ar gyfer y Cydbwyllgor Rhanbarthol – er enghraifft, wrth ddiweddu'r cynlluniau comisiynu. Amlygir hyn yn yr adran uchod. Yn ogystal ag adborth defnyddwyr gwasanaethau, defnyddiwyd dulliau amrywiol hefyd i greu darlun o anghenion presennol pobl yr ardal a'r anghenion a oedd yn ymddangos yn eu plith. Wedi hyn, cyflwynir yr holl wybodaeth i grwpiau cynllunio Cefnogi Pobl Lleol a'r Cydbwyllgor Rhanbarthol, fel rhan o'r gylchred gynllunio, er mwyn gwneud penderfyniadau comisiynu ar sail gwybodaeth. Nid yw'r enghreifftiau a gyflwynir isod yn rhestr gyflawn, ond mae'n dangos enghreifftiau o sut defnyddiodd y pwyllgor ffynonellau data wrth wneud penderfyniadau yn yr ardal.

Enghraifft 1: *Datgomisiynu Gwasanaethau Firysau a Gludir yn y Gwaed (BBV) yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro*

Contract is-ranbarthol oedd Gwasanaeth BBV Gorllewin Cymru a oedd yn darparu cymorth arbenigol mewn cyswllt â thai i'r rhai hynny a oedd â firws a gludir yn y gwaed yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro am gyfnod cyfyngedig o amser. Cost flynyddol y gwasanaeth oedd £36,747, a ddarparwyd trwy grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (SPPG).

Gan fod y contract yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2018, gwnaeth cynrychiolwyr o'r tri awdurdod lleol / timau Cefnogi Pobl gwrdd â Gwalia ym mis Tachwedd 2017 i drafod a oedd manyleb y contract yn parhau i ddiwallu anghenion Cefnogi Pobl ac anghenion y cwsmer. Cynhaliwyd adolygiad ym mis Ionawr 2018. Yn ystod yr adolygiad, gwnaeth dau swyddog Cefnogi Pobl graffu ar hapsampl o 10% o ffolderi cwsmeriaid a chofnodion electronig Gwalia a chael trafodaeth/gohebiaeth gan staff a rhanddeiliaid, gan gynnwys nyrsys BBV a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Hywel Dda ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod yr adolygiad oedd cael cymorth y bwrdd iechyd i archwilio'r opsiynau o ran sut gallai anghenion cymorth cwsmeriaid BBV nad oedd yn ymwneud â thai barhau i gael eu diwallu gan wasanaethau iechyd. Ar ôl cyflwyno'r adolygiad a'r argymhellion i'r Cydbwyllgor

Rhanbarthol, cytunodd y Pwyllgor, er bod rôl gweithwyr cymorth BBV yn werthfawr iawn, fod y mwyafrif o'r cymorth a roddwyd mewn ymateb i anghenion iechyd cwsmeriaid a'u hymgysylltiad parhaus â chynlluniau gofal a thriniaeth, yn hytrach na chymorth a oedd yn ymwneud â thai. Roedd y pwyllgor yn fodlon â'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn cefnogi'r penderfyniad i ddatgomisiynu'r Gwasanaeth BBV, a byddai anghenion cymorth cwsmeriaid a oedd yn ymwneud â thai yn cael eu diwallu gan wasanaethau cymorth tai generig.

Yn ogystal ag amlygu'r defnydd o ffynonellau amrywiol, roedd yr enghraifft uchod hefyd yn ystyried cynlluniau gwario, anghenion a chanlyniadau dymunol ar gyfer y dyfodol.

Enghraifft 2: Comisiynu Prosiectau Peilot

Yn **Sir Benfro**, casglwyd data anghenion trwy gyflwyno prosiectau peilot lleol a phrosiect peilot i deuluoedd. Mae'r prosiectau peilot yn hysbysu'r gwaith o ailgomisiynu gwasanaethau, y model darparu gwasanaethau a'r manylebau gwasanaeth. Cafodd model darparu gwasanaeth y prosiect i deuluoedd ei ad-drefnu i beilota cyd-leoliad gweithiwr cymorth o'r prosiect i deuluoedd gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu mewn canolfan leol i deuluoedd. Nod y peilot oedd rhoi sylw i unrhyw feysydd canlyniadau a oedd yn gorgyffwrdd ar draws y rhaglenni Trechu Tlodi, er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau'r gwerth a'r ansawdd gorau, trwy ddarparu un gwasanaeth 'cofleidiol'. Mae gwerthusiad y prosiectau peilot hyn yn parhau i hysbysu'r gwaith ailgomisiynu yn ystod 2018/19.

Ym **Mhowys**, cyflwynwyd prosiect peilot bach hefyd a oedd yn cefnogi 12 o bobl fyddar a phobl gydag anawsterau clywed. Roedd y prosiect yn darparu cymorth arbenigol i bobl â nam ar eu synhwyrau. Nod y prosiect yw darparu tystiolaeth i gefnogi neu herio'r achos dros gael buddsoddiad gan wasanaethau Cefnogi Pobl mewn gwasanaethau arbenigol i weithio ochr yn ochr â'r ddarpariaeth generig leol sy'n cael ei chyflunio ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith, mewn partneriaeth â Sense Cymru, wedi darganfod bod pobl fyddar yn wynebu problemau iaith a chyfathrebu sylweddol wrth geisio cael gafael ar y gwasanaethau cyhoeddus a phreifat sylfaenol sydd arnynt eu hangen i fyw eu bywydau yn eu ffordd eu hunain. Mae prinder cyfieithwyr iaith Arwyddion Prydain yng nghanolbarth Cymru, ac mae pobl yn wynebu oediadau ac anawsterau sylweddol wrth drefnu apwyntiadau meddyg teulu a chael mynediad at wasanaethau bancio, heb sôn am wasanaethau cymdeithasol a thai. Effaith gyffredinol hyn yw ei fod yn cynyddu ynysu cymdeithasol ac yn gwaethygu problemau llesiant ac iechyd meddwl a oedd eisoes yn bodoli yn

sylweddol. Mae hon yn broblem cydraddoldeb ac amrywiaeth i bobl fyddar, sy'n eu rhwystro rhag mwynhau'r hawliau a'r gwasanaethau yn yr un modd â phobl eraill. Mae galw enfawr am gymorth o'r fath, ac mae'n anodd ymateb yn gywir y tro cyntaf, oherwydd y boblogaeth wasgaredig o bobl fyddar ledled Powys, ymhlith rhesymau eraill.

Cam nesaf y prosiect yw arbrofi gyda chymorth arbenigol a chymorth lleol, gan weithio gyda'n gilydd i wneud y cymorth yn fwy hygyrch ac ymatebol, er mwyn helpu'r bobl dan sylw i gael bywyd da ac atal yr ynysu cymdeithasol a'r risg bersonol rhag cyrraedd lefelau critigol.

Mae prosiectau tebyg ar waith i baratoi'r achos dros fuddsoddi mewn cymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl ifanc. Mae'r prosiect hefyd wedi arwain y Cydbwyllgor Rhanbarthol i argymhell bod tri awdurdod lleol arall yn cyflawni ymarferiad tebyg, er mwyn mapio'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardaloedd, sut mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau a'r rhwystrau o ran mynediad, ac edrych ar sut gall y grŵp cynllunio fanteisio ar yr hyn sydd gennym eisoes.

Pa waith rhanbarthol ac is-ranbarthol sy'n cael ei gomisiynu (ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol â mwy na dau awdurdod lleol) a sut mae gwasanaethau wedi gwella ers yr Adroddiad Adolygu Blynnyddol?

O ran gwasanaethau a gomisiynir, roedd gan Ganolbarth a Gorllewin Cymru un gwasanaeth is-ranbarthol – y Gwasanaeth BBV, a amlygir ar dudalen 15 o'r ddogfen hon. Roedd y gwasanaeth yn cael ei ariannu ar y cyd gan Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro drwy grant y Rhaglen Cefnogi Pobl. Credwyd bod y gwaith trawsffiniol wedi bod yn ddefnyddiol i'r tîm, oherwydd mae wedi galluogi unigolion o ardaloedd anghysbell i gael eu cynnwys ac i fod yn rhan o'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. Gwnaeth y gwasanaeth fuddsoddi amser mewn gweithgareddau hyrwyddo er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma i gleifion presennol a phosibl, gan gynnwys gwneud cyflwyniadau i asiantaethau eraill ac ailgynllunio'r deunydd gwybodaeth. Fodd bynnag, canfu gwerthusiad o'r contract gwasanaeth ei fod yn ymwneud fwy ag iechyd a thriniaeth yn hytrach na thai, ac, o ganlyniad i hyn, gwnaeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol gefnogi'r cynnig y dylai'r Gwasanaeth BBV gael ei ddatgomisiynu.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi bod yn edrych ar nifer o feysydd gwasanaeth sydd â'r potensial i gael eu comisiynu'n rhanbarthol – er enghraifft, gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol rhanbarthol. Dechreuwyd datblygu'r gwasanaeth cam-drin domestig rhanbarthol yn ystod 2017, ac mae'r fanyleb ar gyfer y gwasanaeth wedi'i dosbarthu i'r holl aelodau dan sylw a'i

hadolygu ganddynt. Mae gan rai meysydd gwasanaeth eraill y potensial i gael eu comisiynu'n rhanbarthol, ac mae pob un o'r meysydd hyn yn cael eu symud ymlaen ac ar wahanol gam yng nghylchred datblygu'r prosiect. Yn unol ag adborth aelodau'r Cydbwyllgor Rhanbarthol yn ystod yr adolygiad blynyddol y llynedd, nodir bod natur y rhanbarth a'r gwahanol ddulliau gweithredu yn golygu na fydd modd cyflawni gwasanaethau pedair sir o bosibl, ond gall y Cydbwyllgor Rhanbarthol gydweithio a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio a chydweithio trawsffiniol. Yn adolygiad 2016/17, gwnaeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol adrodd ar rai o'r heriau i gomisiynu rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r heriau'n cynnwys y ddaearyddiaeth, yr ardal eang sydd o fewn y rhanbarth, y cymunedau gwasgaredig, a'r risg o bartneriaid yn tynnu'n ôl am resymau amrywiol – er enghraifft, oherwydd y galwadau cystadleuol a wneir ar eu hamser. Yr un oedd yr heriau ar gyfer y cyfnod adrodd diwethaf. Gwnaeth y newidiadau yn lefel staffio Cefnogi Pobl ledled pedwar awdurdod lleol ac absenoldeb Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol effeithio hefyd ar allu'r Cydbwyllgor Rhanbarthol i gomisiynu fel rhanbarth. Fodd bynnag, mae trafodaethau'n gwneud cynnydd cyflym o ran cryfhau rhaglenni gwaith rhanbarthol. Mae fwyfwy o ddiddordeb a chyfranogiad gweithredol mewn rhaglenni rhanbarthol a rhannu sgiliau.

Sut gallwch ddangos eich bod yn mynd ati i ymdrin â digartrefedd mewn modd ataliol sy'n ymyrryd yn gynharach?

Mae gan Gynllun Strategol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru gysylltiad agos â Deddf Tai (Cymru) 2014. Er mwyn sicrhau cyswllt agosach â digartrefedd, mae gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol gynrychiolwyr o dimau digartrefedd pedwar awdurdod lleol.

GWELEDIGAETH y Rhaglen Cefnogi Pobl:

‘Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, a lle mae gan bawb gartref diogel y gallant ffynnu ynddo.’

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda gwasanaethau statudol fel dewisiadau tai ac eraill. Mae'r grant Cefnogi Pobl wedi ariannu gweithwyr cymorth o fewn timau tai fel y gellir cyfathrebu, atgyfeirio a threfnu apwyntiadau ar unwaith. Yn ôl yr adborth gan gydweithwyr cymorth tai, mae hwn wedi bod yn ffordd effeithiol ac ataliol o weithio.

Yn ogystal â hyn, mae symud i fodel comisiynu lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen wedi bod yn ataliol, ac mae'r ffordd y cynlluniwyd y model yn canolbwyntio'n naturiol ar ymyrraeth gynnar. Mae canfyddiadau'r gwerthusiadau ymchwil lleol wedi dangos y canlynol:

- Gwelwyd cynnydd mewn gallu pobl i gael cymorth, a hynny'n gymorth cynnar
- Mae mwy o allu, sy'n golygu bod gwasanaethau'n fwy ymatebol, a chyfnod byr iawn o amser sydd rhwng atgyfeirio ac asesu/dechrau'r gwasanaeth
- Mae pawb a gaiff eu hatgyfeirio yn cael eu hasesu ac yn derbyn gwasanaeth
- Mae monitro ôl-gymorth yn caniatáu i bobl nad ydynt angen y cymorth ar hyn o bryd i barhau i fod yn gysylltiedig â'r gwasanaeth. Mae monitro defnyddwyr gwasanaethau blaenorol yn sicrhau bod pobl yn llwyddo i gadw eu hannibyniaeth, trwy roi sylw i unrhyw anghenion cymorth sy'n codi ar unwaith, cyn iddynt waethygu i'r pwynt lle y mae'r unigolyn mewn perygl o golli ei gartref
- Mae'r model lleol yn galluogi gwasanaethau i fod yn fwy hyblyg ynghylch faint o amser y maen nhw'n eu treulio gyda defnyddwyr gwasanaethau bob wythnos, ac felly gallant ymateb yn well i'w hanghenion newidiol

Yn Sir Benfro, gwnaeth y prosiect peilot i deuluoedd (gweler t. 16) alluogi cwsmeriaid i gael mynediad amserol at gymorth a oedd yn ymwneud â thai, gan atal problemau sy'n ymwneud â thai rhag gwaethygu at bwynt argyfwng. Gwnaeth y prosiect ardaloedd gwledig a threfol beilota'r defnydd o sesiynau 'galw heibio', fel y gallai cwsmeriaid ofyn am gymorth sy'n ymwneud â thai yn ôl yr angen.

“Y cryfder mwyaf yw'r cyfle i gael fforwm rhanbarthol

amlasiantaeth/amlddisgyblaeth ar bwnc sydd o ddiddordeb i'r holl bartneriaid, y rhai hynny yn y sector cyhoeddus a thu hwnt. Mae'r fforwm wedi'i gadeirio a'i drefnu'n dda, gydag agendâu diddorol ac adroddiadau a gyflwynir yn dda. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu strwythuro i ganiatáu i gyfranogwyr gyfrannu'n llawn, a cheir ymdeimlad y gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd nac ar wahân a bod gwerth ychwanegol gwirioneddol dros ddod â chydweithwyr ynghyd.”

- Dr G. Morgan, Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Nod yr ymyrraeth amserol hon oedd atal problemau a allai waethygu a gofyn am gymorth gwasanaethau statudol drud.

Pa gysylltiadau sydd gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol â'r gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieched yn yr ardal? A ydych wedi comisiynu unrhyw wasanaethau ar y cyd neu wedi cyfuno unrhyw adnoddau? Os ydych, a allwch nodi manylion y prosiect(au)?

Mae cryn dipyn o bynciau cyffredin a materion sy'n gorgyffwrdd gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ôl eu trefn, ac mae cysylltiadau wedi'u gwneud â'r ddau fwrdd. Yn benodol, mae'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol wedi cwrdd â chydgyssylltwyr pob bwrdd partneriaeth, a chafwyd cytundeb i gyfnewid cynlluniau strategol a chynlluniau ardal, rhannu gwybodaeth, a hysbysu ei gilydd am gynnydd. Yn ogystal â hyn, mae pedwar aelod o'r Cydbwyllgor Rhanbarthol yn eistedd ar y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol a naill ai'n cymryd rhan yn y gwaith o asesu'r boblogaeth neu â rôl arweiniol yn y gwaith hwn.

Ni chyflawnwyd unrhyw brosiect cydgomisiynu rhwng y Cydbwyllgor Rhanbarthol a'r gwasanaethau cymdeithasol ac ieched yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi nodi yn y cynllun fod angen alinio ei flaenoriaethau, ei nodau a'i amcanion yn agosach â rhai'r gwasanaethau cymdeithasol ac ieched yn yr ardal, a dechreuwyd ar y gwaith o fapio blaenoriaethau a fframweithiau yn ystod y cyfnod adrodd. Gwnaeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol nodi'r angen i feithrin cysylltiadau ffurfiol rhwng byrddau rhanbarthol. Gwnaeth y Cydbwyllgor Rhanbarthol hefyd gyfnewid cynlluniau strategol rhanbarthol â'r gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) rhanbarthol. Cydnabu fod rhyngberthynas y blaenoriaethau a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar lefel strategol yn gofyn am gyfathrebu effeithiol a rheolaidd rhwng grwpiau cynllunio awdurdodau lleol a'r Cydbwyllgor Rhanbarthol. Caiff penderfyniadau strategol eu cyfleu trwy gael diweddariadau gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol ac o ran cynlluniau awdurdodau lleol yn eitemau sefydlog ar agendâu cyfarfodydd ei gilydd.

Mae awdurdodau lleol unigol, fodd bynnag, wedi bod yn gweithio'n agos ag asiantaethau partner o fewn eu hardaloedd. Er enghraifft, mae'r tîm Cefnogi Pobl yn Sir Benfro wedi bod yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn y Tîm Cymunedol Anabledau Dysgu (CTLD) a Phobl yn Gyntaf Sir Benfro (PPF). Cafodd 'cyrsgau symud ymlaen' a gyflwynwyd gan PPF eu hariannu ar y cyd er mwyn cynorthwyo

unigolion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i gyrraedd man lle gallant fyw'n fwy llwyddiannus yn annibynnol, mewn tai â chymorth neu'n gwbl annibynnol. Mae tîm Cefnogi Pobl Sir Benfro wedi bod yn gweithio gyda Gofal Ychwanegol Bro Preseli, Crymych. Yn ystod y peilot ardaloedd gwledig, bu'r gwasanaeth yn gweithio'n agos â'r feddygfa deuluol a'r gwasanaeth dydd oedd ar y safle. Roedd yn hyrwyddo'r gwasanaeth i atgyfeirwyr a rhanddeiliaid posibl yn yr ardal, ac yn nodi a chyfeirio atgyfeiriadau a oedd yn cael eu pasio ymlaen. Galluogodd y dull hwn i ni gyflwyno darpariaeth fwy holistaidd gyda chysylltiadau gwell mewn cymuned wledig. Gwnaeth y tîm Cefnogi Pobl weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda hefyd, gan gyflwyno'r Gwasanaeth Dementia yn ystod 2017/18.

Gweler fframwaith rhanbarthol ehangach arfaethedig y Cydbwyllgor Rhanbarthol ar t. 22.

Pa gysylltiadau sydd wedi'u gwneud â grwpiau strategol/cynllunio rhanbarthol eraill, a pha waith cydgomisiynu sydd wedi'i wneud gyda phartneriaid/rhaglenni allweddol eraill?


Nid oes unrhyw weithgarwch cydgomisiynu wedi'i wneud rhwng y Cydbwyllgor Rhanbarthol a phartneriaid/rhaglenni allweddol eraill yn ystod y cyfnod adolygu. Fodd bynnag, mae cysylltiadau wedi'u gwneud â grwpiau strategol/cynllunio rhanbarthol eraill fel y VAWDASV rhanbarthol, byrddau partneriaeth ranbarthol a rhaglenni trechu tlodi eraill. Dangosir y fframwaith rhanbarthol arfaethedig isod.

Yn fwy diweddar, mae partneriaid o'r Rhaglen Trechu Tlodi yn cael eu cynrychioli ar grŵp cynllunio Cefnogi Pobl pob awdurdod lleol, ac mae Cefnogi Pobl yn cael eu cynrychioli ar eu grwpiau nhw. Yn ogystal â hyn, mae cyfarfodydd rheolaidd wedi dechrau ar lefel weithredol rhwng swyddfeydd rhaglen Cefnogi Pobl a Threchu Tlodi, i edrych ar y posibilrwydd o gydgomisiynu ac i adolygu nifer y gwasanaethau a'r mathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu er mwyn nodi unrhyw orgyffwrdd a chyfleoedd i weithio mewn partneriaeth.

Yn Sir Benfro, cafodd y prosiect i deuluoedd ei ad-drefnu i beilota darparu gwasanaethau ar y cyd o ganolfan leol i deuluoedd, gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu. Nod hyn oedd gwella'r cymorth a oedd yn ymwneud â thai a ddarparwyd i deuluoedd agored i niwed, ochr yn ochr â model y Tîm o Amgylch y Teulu, ac i leihau'r effaith o dynnu elfennau penodol o'r grant Teuluoedd yn Gyntaf. Ceisiodd y peilot fynd i'r afael ag unrhyw feysydd canlyniad a ddarparwyd ar draws y rhaglenni Trechu Tlodi a oedd yn

gorgyffwrdd, er mwyn osgoi dyblygu ac i sicrhau'r gwerth a'r ansawdd gorau, gydag un gwasanaeth 'cofleidiol'.

Mid and West Regional Collaborative Committee – Regional Partnership Working Framework



ADBORTH / ARFARNIADAU'R CYDBWYLLGOR RHANBARTHOL

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd gan aelodau o'r Cydbwyllgor Rhanbarthol. Cyflwynwyd y safbwyntiau i'r Cydbwyllgor Rhanbarthol, a chytunwyd eu bod yn gywir ac yn ddarlun teg o'r Cydbwyllgor Rhanbarthol yn gyffredinol.

Beth sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod adrodd hwn?

Mae gan Gydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru gynllun comisiynu rhanbarthol cryf, sy'n nodi ymgysylltu gwell mewn cyfleoedd rhyng-ranbarthol a rhanbarthol / cydgomisiynu posibl. Er bod angen cael dull systematig datblygedig o hyd wrth ymateb i gyfleoedd ar gyfer cydgomisiynu, mae trafodaethau'n ennill tir o ran cryfhau rhaglenni gwaith rhanbarthol. Er enghraifft, cynhaliwyd y gwaith o fapio a chysylltu amcanion a blaenoriaethau byrddau rhanbarthol allweddol, h.y. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae fwyfwy o ddiddordeb a chyfranogiad gweithredol hefyd mewn rhaglenni rhanbarthol a rhannu sgiliau a gwybodaeth.

Canfu'r adolygiad fod y fforwm yn cael ei gadeirio a'i drefnu'n dda. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y fforwm wedi cael agendâu diddorol ac adroddiadau a gyflwynwyd yn dda gan asiantaethau amrywiol, gan gynnwys yr Uned Cydlyniant Rhanbarthol. Roedd y cyfarfodydd wedi'u strwythuro hefyd er mwyn caniatáu i gyfranogwyr gyfrannu'n llawn, ac roedd ymdeimlad y gallem gyflawni mwy gyda'n gilydd nac ar wahân. Yn wir, roedd gwerth ychwanegol gwirioneddol dros ddod â chydweithwyr ynghyd, ac ymddengys fod yna ddiwylledd a pharodrwydd i ddysgu o'i gilydd. Mae'r grŵp wedi dod ynghyd yn dda.



Yn olaf, roedd cynrychiolaeth dda o sefydliadau amrywiol ar y Cydbwyllgor Rhanbarthol, ac aelodau unigol yn dangos dealltwriaeth glir o fanteision cefnogi pobl. Roedd awydd cryf i wella'r gwasanaeth, i weithio mewn partneriaeth, ac i ymglymu defnyddwyr gwasanaethau. Roedd tystiolaeth fod pawb yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, sy'n gosod sylfaen gadarn a chynaliadwy ar gyfer datblygu gwaith yn y dyfodol.

Beth sydd angen ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn i ddod?

Er bod fwyfwy o ddiddordeb mewn gwaith amlasiantaeth a chydweithio, mae angen mwy o gydgomisiynu, datblygu dulliau pellach o weithio'n agosach gyda Byrddau Partneriaeth Ranbarthol, a mwy o weithio effeithiol mewn partneriaeth. Yn ogystal â hyn, mae angen cadw'r ffocws mewn trafodaethau ac mae angen datblygu cyfleoedd 'yn yr arfaeth' i ymateb i gyfleoedd o'r fath pan fyddant yn ymddangos, a allai gryfhau rhaglenni gwaith rhanbarthol. Argymhellwyd y dylid bod cyfle i gael cyfarfodydd thematig â mwy o ffocws. Gallai hyn ganolbwyntio ar un neu ddwy agwedd ar y rhaglen. Ar hyn o bryd, mae'r agenda'n eang, sydd, yn anochel, yn lleihau lefel y manylder.

mwy o gydgomisiynu	Yn ogystal â hyn, mae angen cysondeb ymhlith
datblygu gwaith agosach pellach gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol	awdurdodau lleol o ran y
datblygu cyfleoedd 'piblinell'	ffordd y maent yn comisiynu, yn monitro ac yn adolygu
trafodaethau mwy thematig a chanolbwyntiedig	darparwyr, yn hytrach na'r
cysondeb ymhlith awdurdodau lleol o ran comisiynu, monitro ac adolygu darparwyr	dulliau gwahanol ac amrywiol
tynnu ynghyd y cytundeb rhanbarthol ar daliadau rheoli	tu hwnt sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Mae angen
bod yn fwy rhagweithiol o ran y rhaglen ranbarthol a gweithio'n rhanbarthol	mabwysiadu dull gweithredu cyson, a fydd, gobeithio, yn
cael detholiad o wahanol wasanaethau ar gyfer cyllid llithriant	arwain at gydweithio a
safbwynt clir gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol ar gyllid ar gyfer y dyfodol	chydgomisiynu. Mae hyn yn hanfodol pan fo adnoddau'n
trechu materion hiliol, a'r rhai hynny sy'n seiliedig ar ryw a thrais a gwahaniaethu rhywiol	brin a ffrydiau ariannu mewn perygl. Mae hefyd angen
dysgu o gydbwyllgorau rhanbarthol eraill	

iddynt ddod i gytundeb rhanbarthol ar gyfrifoldebau rheoli.

Er bod y Cydbwyllgor Rhanbarthol yn cyfnewid gwybodaeth yn dda, mae angen iddo ddod o hyd i ffyrdd o fod yn fwy rhagweithiol o ran y rhaglen waith ranbarthol. Efallai y bydd yn ystyried dull gweithredu cydlynol ar draws Dyfed–Powys ar unrhyw fentrau, a datblygu perthnasau gwaith agosach â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ffrydiau ariannu eraill. Mae angen i'r Cydbwyllgor Rhanbarthol gael amrywiaeth o wahanol wasanaethau'n barod i'w rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ariannu llithriant.

Yn ogystal, mae angen i'r Cydbwyllgor Rhanbarthol gyflwyno safbwynt clir ar sut olwg fydd ar ariannu yn y dyfodol a'r cymorth i Cymorth / y Sefydliad Tai Siartredig ar lobïo a diogelu'r cyllid ar draws y sector. Mae'n bosibl y bydd angen iddo feithrin cysylltiadau agosach a dysgu am sut mae Cydbwyllgorau Rhanbarthol eraill yn gweithio a'r hyn y maen nhw wedi'u datblygu – fel, er enghraifft, y taliadau rheoli – neu weithio gyda darparwyr camddefnyddio sylweddau. Efallai y gallwn gymryd yr hyn a ddysgwyd gennym a'i wella. A ydym hefyd yn tanbrizio ein hunain? Oes gennym enghreifftiau o arferion da iawn y gallem eu harddangos ar lefel genedlaethol? Beth yw'r meysydd gwaith y gallem honni bod gennym arbenigedd neu lwyddiant arbennig ynddynt felly? Mae'n anochel y byddai cael trafodaeth o'r fath yn canolbwyntio'r agenda ar rai materion allweddol. O ganlyneb i hyn, beth allem ni ei ddysgu o ardaloedd eraill, ac a oes rhai camau cyflym y gallem ni eu cymryd?

Yn olaf, mae angen mwy o waith ar drechu hiliaeth, trais rhywiol a gwahaniaethu ar sail rhyw, yn ogystal â chynorthwyo mwy o bobl agored i niwed i beidio â bod yn ddigartref, ac i gynorthwyo'r rhai hynny sy'n dioddef oherwydd ieuchyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a phobl ag anabledau i gysylltu'n effeithiol â'r gymuned leol a'r trydydd sector.

Unrhyw sylwadau eraill?

Roedd swydd cydlynnydd y Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi bod yn wag ers Ebrill 2017, ac mae'n anochel fod hyn wedi cael effaith ar y rhaglen waith. Mae hon wedi'i llenwi bellach ers mis Ionawr 2018, ac mae pethau'n dechrau datblygu. Gwelwyd nifer o newidiadau hefyd mewn swyddogion Cefnogi Pobl ledled y rhanbarth.

Byddai un aelod yn croesawu cymorth i gyrraedd landlordiaid eraill yn y rhanbarth er mwyn rhannu'r hyn sy'n digwydd a chael eu barnau, oherwydd nid yw'n credu ei fod yn gwneud ei swydd hyd eithaf ei allu.

LLYWODRAETHU A GWYBODAETH YMARFEROL

A oes gan y Cydbwyllgor Rhanbarthol Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd wedi'i lofnodi gan yr holl aelodau? **OES**

A oes gan bob aelod o'r Cydbwyllgor Rhanbarthol ffurflen Datgan Buddiannau gyfredol? **OES**

A yw'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwario rhanbarthol diweddaraf a'i Gynlluniau Gwario ar gyfer pob awdurdod lleol yn yr ardal? **NAC YDY. Dosbarthwyd Cynlluniau Gwario i'r holl randdeiliaid.**

A yw'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi cyhoeddi ei Gynllun Strategol Rhanbarthol diweddaraf? **NAC YDY (mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wrthi'n datblygu ei dudalen we ac yn bwriadu cyhoeddi'r Cynllun Strategol Rhanbarthol diweddaraf)**


A yw'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi cyhoeddi Adroddiad Adolygu Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf? **NAC YDY**

A yw'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wedi cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd? **NAC YDY**

Noder: Mae'r Cydbwyllgor Rhanbarthol wrthi'n datblygu gwefan i ddangos cyhoeddiadau'r Cynllun Strategol Rhanbarthol, gan gynnwys y Cynllun Gwario Rhanbarthol, y Cynlluniau Gwario ar gyfer pob awdurdod lleol, cofnodion y cyfarfodydd, adolygiadau blynyddol, unrhyw ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru, a dolenni i dudalennau gwe asiantaethau partner a rhanddeiliaid, fel y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, VAWDASV Rhanbarthol a darparwyr gwasanaethau. Ei nod hefyd yw darparu rhagor o wybodaeth am dimau Cefnogi Pobl a sut i gael gafael ar wasanaethau, yn ogystal ag ymgysylltu â defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau. Bydd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu eisiau cael mynediad at y gwasanaeth yn gallu gadael sylwadau ac adborth am y gwasanaethau y maen nhw'n eu cael neu'n dymuno eu cael.

Isod ceir Strwythur Llywodraethu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2017/18.

Mid and West Wales Regional Collaborative Committee 2018/19 (First Draft –the RCC Governance and Structure)



GWYBODAETH GYSWLLT Y CYDBWYLLGOR RHANBARTHOL

Beverly B Davies

Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol

Cydbwyllgor Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LE

Cyswllt: 01267 242486; bbdavies@sirgar.gov.uk

Rydym wrthi'n creu'r wefan ar hyn o bryd.

Timau Cefnogi Pobl

Awdurdod lleol	Prif unigolyn cyswllt	Manylion cyswllt
Sir Gaerfyrddin	Alun Jones	01267 242 434 aljones@sirgar.gov.uk
Ceredigion	Gary Proven	01437 775 525 Gary.Proven@ceredigion.gov.uk
Sir Benfro	Joy James	01437 776675 Joy.James@pembrokeshire.gov.uk
Powys	Adrian Jones	01597 827237 adrian.jones2@powys.gov.uk



Awdur:

Beverly B Davies

Cyswllt:

01267 242486;

bbdavies@sirgar.gov.uk